

# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 — Taflen Ffeithiau 2

## Henebion cofrestredig — Gorfodi, amddiffyniadau a phwerau mynediad

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') yw'r ddeddfwriaeth gyntaf i'w chyflwyno'n benodol ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'n gwneud newidiadau pwysig i Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ('Deddf 1979' — <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1979/46/contents>) a fydd yn effeithio ar sut y bydd henebion cofrestredig yng Nghymru yn cael eu dynodi, eu gwarchod a'u rheoli. Mae testun llawn Deddf 2016 a'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â hi i'w gweld yma: <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh>

Mae'r daflen ffeithiau hon yn disgrifio rhai o'r darpariaethau yn y Ddeddf newydd sy'n ymdrin â henebion cofrestredig ac sy'n:

- sefydlu dulliau newydd a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu'n gyflym i atal difrod neu waith anawdurdodedig i henebion cofrestredig;
- golygu y bydd modd gwarchod henebion cofrestredig Cymru yn well drwy gyfyngu ar y defnydd o'r amddiffyniad anwybodaeth o dan Ddeddf 1979;
- cyflwyno pwerau mynediad newydd ar gyfer gwaith cloddio ar henebion sydd mewn perygl agos o gael eu difrodi neu eu dinistrio.

### Gorfodi (adrannau 12 a 13)

Mae'r darpariaethau a ganlyn yn creu pwerau gorfodi mewn perthynas â henebion cofrestredig yng Nghymru sy'n debyg i'r pwerau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer adeiladau rhestredig.

#### *Hysbysiadau stop dros dro (adran 13)*

Bellach, bydd Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw), gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, yn gallu cyflwyno hysbysiad stop dros dro er mwyn ei gwneud yn ofynnol i waith anawdurdodedig ddod i ben ar unwaith cyn i heneb gofrestrredig gael ei difrodi ymhellach neu ei dinistrio. Bydd modd defnyddio'r hysbysiad hwnnw hefyd i roi stop ar waith a fydd wedi methu cydymffurfio ag unrhyw amod a fydd yn gysylltiedig â chydysniad heneb gofrestrredig.

Bydd yr hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i waith penodedig ddod i stop am 28 diwrnod o'r dyddiad i'r hysbysiad hwnnw gael ei arddangos gyntaf ar yr heneb neu gerllaw iddi. Os na ellir cytuno ar ffordd o ddatrys y sefyllfa tra bo'r gwaith ar stop, gellir cymryd camau gorfodi pellach neu erlyn. Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad stop dros dro yn drosedd ynddi ei hun yn ychwanegol at unrhyw drosedd sy'n ganlyniad i'r gwaith nad yw wedi'i awdurdodi.

Os na chaiff hysbysiad stop dros dro ei gyflwyno'n briodol neu os caiff ei dynnu'n ôl heb i gydsyniad heneb gofrestrredig gael ei roi, caiff person sydd â buddiant yn yr heneb neu'r tir o dan sylw hawlio digollediad oddi wrth Weinidogion Cymru am unrhyw golled neu ddifrod a fydd yn codi'n uniongyrchol o ganlyniad i effaith yr

hysbysiad. Rhaid cyflwyno hawliad ysgrifenedig ymhen chwe mis yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn Rheoliadau Henebion Hynafol (Hawliadau am Ddigollediad) (Cymru) 2017 (<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/641/contents/made/welsh>).

#### *Hysbysiadau gorfodi (adran 12)*

Mae Cadw yn gallu cyflwyno hysbysiad gorfodi hefyd os oes gwaith heb ei awdurdodi wedi cael ei wneud, neu yn cael ei wneud, ar heneb gofrestredig. Caiff hysbysiad gorfodi bennu'r camau y bydd yn ofynnol eu cymryd er mwyn adfer yr heneb neu liniaru effaith y gwaith anawdurdodedig. Gellir ei ddefnyddio hefyd i adfer heneb i'r cyflwr y byddai wedi bod ynddo pe byddid wedi cydymffurfio â'r amodau a oedd yn gysylltiedig â chydysniad heneb gofrestredig.

Ni fydd hysbysiad gorfodi yn dod i rym hyd nes y bydd 28 diwrnod wedi mynd heibio ers iddo gael ei gyflwyno, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, ceir cyflwyno apêl yn ei erbyn, ar sail rhesymau penodol, mewn llys ynadon. Os na fydd y gwaith a bennir yn cael ei wneud, caiff person a awdurdodir gan Weinidogion Cymru wneud y gwaith ac adfer y costau oddi wrth berchennog neu lesddeiliad yr heneb. Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi yn drosedd ynddi ei hun yn ychwanegol at unrhyw drosedd sy'n ganlyniad i'r gwaith nad yw wedi'i awdurdodi.

#### **Amddiffyniadau (adrannau 15 –17)**

Mae Deddf 2016 yn cyfyngu ar y gallu i ddefnyddio'r amddiffyniad anwybodaeth yn achos difrod neu waith anawdurdodedig i henebion cofrestredig.

Mae bellach yn drosedd os yw heneb warchodedig yn cael ei difrodi neu ei dinistrio, a bod y cyhuddedig yn gwybod, neu y dylai'n rhesymol fod wedi gwybod, bod yr heneb yn un warchodedig. Er mwyn cael amddiffyniad mewn achosion o waith anawdurdodedig, bydd yn rhaid i'r cyhuddedig brofi nad oedd yn gwybod ac nad oedd ganddo unrhyw reswm dros gredu, bod yr heneb yn warchodedig, hyd yn oed ar ôl cymryd pob cam rhesymol i ddarganfod a fyddai'r gwaith yn effeithio ar heneb gofrestredig.

Bydd yn ofynnol i unrhyw berson a gyhuddir o ddefnyddio synhwyrdd metel mewn man gwarchodedig brofi bod pob cam posibl wedi'i gymryd i ddarganfod a oedd yn fan gwarchodedig, ac nad oedd yn gwybod, neu nad oedd ganddo unrhyw reswm dros gredu, ei fod yn warchodedig.

Mae manylion am henebion cofrestredig a mapiau ohonynt ar gael yn rhad ac am ddim ar Cof Cymru, adnodd ar-lein Cadw, sy'n seiliedig ar fapiau, ar gyfer asedau hanesyddol cenedlaethol yng Nghymru (<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy>). Mae Cof Cymru yn darparu gwybodaeth hefyd am adeiladau rhestredig, llongdrylliadau gwarchodedig, tirweddau hanesyddol cofrestredig a Safleoedd Treftadaeth y Byd; bydd yn cynnwys parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn y pen draw.

#### **Pwerau mynediad ar gyfer ymchwiliadau archaeolegol (adran 19)**

Caiff Gweinidogion Cymru roi'r pŵer i berson awdurdodedig fynd ar dir i wneud gwaith cloddio archaeolegol heb gydsyniad perchennog y tir, os gwyddys neu y

credir bod heneb hynafol mewn perygl agos o gael ei difrodi neu ei dinistrio. Dim ond o dan amgylchiadau prin y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio pan na wyddys pwy yw'r perchennog neu nad oes modd cysylltu ag ef a bod bygythiad gwirioneddol y bydd gwybodaeth archaeolegol o bwys yn cael ei cholli.

## **Ymwadiad**

Nid yw'r daflen ffeithiau hon yn rhoi dehongliad cyfreithiol awdurdodol o ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Am ymdriniaeth o faterion cyfreithiol, dylid cyfeirio'n uniongyrchol at destun y Ddeddf, sydd ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh>

## **Darpariaethau eraill yn Neddf 2016 sy'n ymdrin â henebion cofrestredig**

Mae taflen ffeithiau 1 yn rhoi gwybodaeth am y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymdrin â'r diffiniad o heneb, â dynodi heneb gofrestrdig ac â chydysniad heneb gofrestrdig.